



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**DCO WYLFA NEWYDD:
CYFEIRNOD PINS: ENO10007**

Cyflwyniad Terfyn Amser 1:

**ACHOS CYNGOR SIR YNYS MÔN A GYFLWYNWYD AR LAFAR
YN Y GWRANDAWIAD MATER PENODOL (1) AR Y GORCHYMYN
CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT ARFAETHEDIG AR 24 HYDREF 2018**

Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Ynys Ynni

13 Tachwedd, 2018

CYFLWYNIAD YSGRIFENEDIG O ACHOS CYNGOR SIR YNYS MÔN A GYFLWYNWYD AR LAFAR YN Y GWRANDAWIAD MATER PENODOL (1) AR Y GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT ARFAETHEDIG AR 24 HYDREF 2018

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r achos a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM neu'r Cyngor) yn y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH 1) a gynhaliwyd ar Faes Sioe Môn, Ynys Môn, ar 24 Hydref 2018.
- 1.2 Cynrychiolwyd CSYM gan Mr Martin Kingston, CF; Mr Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y Cyngor; Ms Angharad Crump, Swyddog Arweiniol Gorchymyn Caniatâd Datblygu CSYM – Wylfa Newydd; Mr Rhys Jones, Rheolwr Effeithiau Caniatadau Mawr CSYM; a Ms Paula McGeady, twrnai, o Burges Salmon LLP. Hefyd yn bresennol yr oedd Julian Boswall a Patrick Robinson o Burges Salmon LLP.

2. ERTHYGL 5 AC ALINIO Â'R GWAITH O GLIRIO A PHARATOI'R SAFLE YN Y CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO A WNAED I'R CYNGOR FEL AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL

- 2.1 Mae'r Cyngor yn bryderus ynglŷn â drafftio Erthygl 5 yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) (APP-029). Ni chred CSYM ei bod yn gywir nodi bod gwaith 12 yn atgynhyrchu'r gwaith o baratoi a chlirio'r safle y ceisir caniatâd cynllunio¹ ar ei gyfer gan y Cyngor na bod gofynion y DCO yn atgynhyrchu amodau'r caniatâd cynllunio.
- 2.2 Mae Gwaith 12 yn fwy helaeth ac yn fwy ei effaith na'r gwaith yn y caniatâd cynllunio². Nid yw'r memorandwm esboniadol (APP-031) yn 4.10 a 4.16 felly yn gywir yn dweud bod y gwaith hwn yr un fath. Er enghraifft, mae Gwaith 12 yn cynnwys alinio cwrs dŵr nas cynhwysir yng ngwaith clirio a pharatoi safle'r caniatâd cynllunio. Yn 4.16 ceir cyfeiriad at y ffaith bod Gwaith 12 ychydig yn fwy nag ardal cais y caniatâd cynllunio, nid yw hwn yn adlewyrchiad teg o'r gwahaniaeth rhwng cwrpas y gwaith hwn dan y ddau gais.
- 2.3 Mae amodau'r caniatâd cynllunio drafft yn fwy helaeth na'r amodau yn y DCO a chynhwysant amrywiol faterion nad ydynt yn cael eu datgan ar hyn o bryd yng ngofynion y dDCO.
- 2.4 Mae CSYM hefyd yn bryderus ynglŷn â dechrau Gwaith 12 oherwydd fel y mae nid yw'r diffiniad o ddechrau yn y DCO, yn sbarduno llawer o ofynion y DCO.
- 2.5 Mae CSYM yn bryderus ynglŷn â drafftio Erthygl 5(1)b. Mae'n ymddangos bod yr erthygl hon yn golygu y byddai unrhyw achos a oedd yn bodoli gynt o dorri amodau yn cael ei ddirymu drwy ddechrau Gwaith 12 ond y byddai pob cymeradwyaeth dan y caniatâd cynllunio yn cael eu hystyried yn gymeradwyaethau dan y DCO. Mae hyn yn ymddangos yn unochrog iawn gan fod Erthygl 5 hefyd yn darparu bod unrhyw ganiatadau sy'n bodoli eisoes a roddwyd dan y caniatâd cynllunio yn gweithredu fel caniatadau dan y DCO. Hefyd, ac ystyried maint y gwaith yng Ngwaith 12 o'i gymharu â'r caniatâd cynllunio, ni chred y Cyngor bod Horizon wedi dangos y byddai hyn yn briodol gan na fyddai'r dogfennau a'r cynlluniau a gymeradwywyd ar gyfer y caniatâd cynllunio wedi cael eu drafftio i gynnwys holl weithgareddau mwy helaeth Gwaith 12.

3. GWAITH CLIRIO A PHARATOI'R SAFLE

- 3.1 Dywedodd CSYM fod cyfarwyddyd dal yn ôl Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith o glirio a pharatoi'r safle yn dal i fod mewn grym; roedd CSYM yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar hyn yn fuan.³

¹ Gwnaed y cais am ganiatâd cynllunio i wneud y gwaith o glirio a pharatoi'r safle i CSYM fel ACLI dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 38C310F/EIA/ECON.

² Gweler y disgrifiad o'r gwaith yn y caniatâd cynllunio a welir ar ddiwedd y nodyn hwn.

³ Mewn ymateb i ddatganiad Horizon nad oeddent yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd dal yn ôl hwn, mae CSYM yn nodi y trafodwyd hyn yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio ar 05 Medi 2018 lle ystyriwyd y cais ar gyfer clirio a pharatoi'r safle a bod nifer o staff Horizon yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw a'u bod wedi siarad ynddo.

- 3.2 Dywedodd CSYM fod drafft a106 y caniatâd cynllunio wedi'i lunio i raddau helaeth ac mai'r gwaith adfer yw'r mater allweddol sydd angen sylw ynddo.

4. GWAITH MOROL – AWDURDODAETH MEWN ARDAL RYNGLANW

- 4.1 Dywedodd CSYM fod y Cyngor yn dal i drafod ac yn ymwybodol bod angen ystyried hwn yn ofalus. Mae'r Cyngor angen dipyn o amser i ystyried a yw'n briodol iddynt ildio rôl yr awdurdod cyflawni dros yr ardal rynglanw. Mae hyn yn bwysig oherwydd y bydd rhai o'r adeileddau hyn yn effeithio ar dwristiaeth ac amwynder y tirlun ac mae felly o ddiddordeb mawr i CSYM. Pum metr yw ystod llanw yr ardal hon ac mae'r ardal dan sylw felly yn un sylweddol.
- 4.2 Addawodd CSYM i nodi'r hyn y cytunwyd iddo a'r hyn nas cytunwyd iddo ar y pwynt hwn a'r rhesymau dros hynny yn ei ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig cyntaf.

5. ATODLEN 1, DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG ARALL, PARAGRAFF O)

“o) y cyfryw waith arall a fydd yn angenrheidiol neu'n fanteisiol o bosibl at ddibenion neu mewn cysylltiad ag adeiladu, gweithredu a chynnal y datblygiad awdurdodedig na fydd yn esgor ar unrhyw effeithiau amgylcheddol newydd neu wahanol iawn i'r rheini y'u haseswyd fel y'u nodir yn y Datganiad Amgylcheddol.”

- 5.1 Mae CSYM yn bryderus ynglŷn â pham bod y ddarpariaeth hon mor eang. Dywedodd CSYM nad eglurwyd hyd yma fod y ddarpariaeth eang iawn hon yn angenrheidiol⁴. Mae CSYM eisiau gwybod yn iawn pa waith a gynhwysir yn amlen y prosiect a bod modd rheoli'n briodol felly unrhyw gydsyniad. Dywedodd CSYM ei bod yn ymddangos mai esboniad Horizon yw bod y prosiect mor fawr fel na allant ddarparu holl fanylion eu gwaith.
- 5.2 Gallai'r hyn y mae Horizon yn ei asesu fel gwaith bach neu ansylweddol yng nghyd-destun y prosiect cyffredinol fodd bynnag gael effaith fawr ar drigolion ond gael effaith wahanol iawn arny'n nhw. Os yw'r effaith eisoes yn sylweddol, yna gallai hyd yn oed gynydd bychan fod yn arwyddocaol iawn o ran yr effaith a deimlir. Cred y Cyngor felly ei bod yn bwysig bod mor benodol â phosibl wrth ganiatáu darpariaeth dal popeth o'r fath.
- 5.3 Gofynnodd y Panel i CSYM gyflwyno eu pryderon yn ysgrifenedig ynghyd ag opsiynau drafftio ar gyfer y disgrifiad hwn o waith atodlen 1 erbyn Dyddiad Cau 1. Gofynnwyd i CSYM hefyd gysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r geiriad. Mae CSYM wedi cyflwyno ymateb ar y pwynt hwnnw ynghyd â'r crynodeb hwn.

6. ATODLEN 2, RHESTR O'R CYNLLUNIAU

- 6.1 Gofynnwyd i CSYM a yw'r cynlluniau a restrir yn atodlen 2 i gyd yn gywir. Dywedodd CSYM fod hwn yn un o'r cwestiynau yn yr agenda atodol, y bydd yn ffurfio un o'r cwestiynau ysgrifenedig cyntaf ac y bydd yn ymateb i hyn yn yr ateb i'r cwestiynau hynny.

7 COD YMARFER ADEILADU (COCP) (BWRDD RHAGLEN)

- 7.1 Mae Cwnsler CSYM wedi gwneud nodyn o'r cyflwyniadau a wnaed ar y pwynt hwn ac maent ynghlwm fel atodiad un wrth y crynodeb hwn.
- 7.2 Dywedodd CSYM fod COCP (APP-414) yn ddogfen ardstyiedig dan erthygl 76 o'r dDCO. Mae'r Cyngor yn bryderus iawn ynglŷn â'r ddogfen hon a'r is-CoCPs. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi ysgrifennu at Horizon sawl tro (yn benodol 16 Mai 2018, 17 Medi 2018 ac 17 Hydref 2018) yn datgan yn fanwl ei bryderon ynglŷn â'r COCP ond nid yw wedi cael ateb o sylwedd i'r llythyron hyn, dim ond y fersiwn nesaf o'r ddogfen.
- 7.3 Mae torri DCO yn drosedd, fodd bynnag, mae cynifer o'r mesurau sydd i fod i gael eu sicrhau gan y COCP yn gorfod cael eu pennu gan y Bwrdd Rhaglen fel nad yw'n bosibl i unrhyw un farnu a gydymffurfir â'r DCO ai peidio. Ni ellir defnyddio'r COCP fel y'i drafftwyd i bennu beth a fyddai'n rhaid

⁴ Nodyn ar ôl y gwrandawriad: Mae CSYM yn ystyried bod pwynt tebyg yn berthnasol i'r ymagwedd at Ddatblygiad Cysylltiedig Arall yn gyffredinol.

i'r ymgeisydd ei gyflawni neu beidio er mwyn cydymffurfio, ac felly ni ellid sefydlu safon profi troseddol o ddiffyg cydymffurfio gan wneud darpariaethau gorfodi'r Ddeddf Gynllunio yn ddiystyr felly.

- 7.4 Dywedodd CSYM y byddai'n falch iawn o wahanu'r adran 106 a'r COCP, fodd bynnag, mae'r iaith benodol a ddefnyddir yn y COCP yn rhwymo'r rhain wrth ei gilydd drwy broses arfaethedig y Bwrdd Rhaglen, sy'n annerbyniol i CSYM. Nid oes ar CSYM eisiau lefel amhriodol o reolaeth, fodd bynnag, gan mai'r ACLI yw'r unig gorff sy'n gallu cofrestru adran 106 a'i gorfodi fel gweithred, ni all fod yn ddarostyngedig i'r broses COCP fel y cynigir.

8. COD YMARFER ADEILADU (COCP) (DIFFYG MANYLDER)

- 8.1 Mae'r COCP yn darparu yn 2.4.1 "Mae'r CoCP a'r is-CoCPs yn gosod safonau a mesurau a fydd yn rheoli ac yn delio ag effeithiau amgylcheddol andwyol adeiladu". Cyflwynodd CSYM nad yw'n ystyried bod yn y COCP lefel briodol o fanylder i gyflawni'r swyddogaeth hon. Nid oes yn y COCP na'r is-CoCPs y manylder ar sut y cyflawnir y camau lliniaru, nac i ba safonau y mae'n rhaid eu cyflawni.
- 8.2 Er enghraifft, mae wedi'i nodi ar y map trywydd lliniaru (APP-422) yn llinellau 0017 a 0050 y bydd y COCP yn sicrhau y defnyddir bysys gwennol i liniaru ymysg pethau eraill yr effeithiau ar draffig. Fodd bynnag, ni ddarperir y manylder hwn yn y COCP. Mae faint o fsys, pryd y byddant yn rhedeg, o ble ac i ble y byddant yn rhedeg, sef y pethau sy'n gweithredu'r camau lliniaru honedig hyn mewn gwirionedd, ar goll.

9 CAFFAEL GORFODOL

- 9.1 Mae CSYM yn nodi ei fod yn gwrthwynebu'r bwriad i gaffael nifer o'u buddiannau drwy dulliau gorfodol, gan gynnwys buddiannau mewn tir sy'n ffurfio rhan o'r briffordd gyhoeddus. Ystyrir ei fod yn amhriodol, ac yn anghydnaws â gallu'r Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd i reoli'r briffordd gyhoeddus yn iawn, i'r ymgeisydd gaffael llawer o'r buddiannau y maent wedi'u cynnwys yn y DCO. Yn benodol, mae'r gallu i feddiannu'r ffordd gerbydau weithredol gyfan dros dro yn annerbyniol. Ymhellach, mae CSYM yn ystyried y ceir mecanweithiau amgen, mwy priodol er mwyn i'r ymgeisydd gael mynediad i dir priffyrdd ar gyfer cyflawni'r gwaith, na chafodd y mecanweithiau eu trafod â'r Cyngor ac nad yw'n angenrheidiol caffael hawliau mewn tir priffyrdd cyhoeddus. Bydd y Cyngor yn ymhelaethu ar y pwynt hwn yn ei sylwadau ysgrifenedig.

10 ADRAN 106

- 10.1 Dywedodd CSYM nad oes ganddynt Benawdau Telerau manwl gan Horizon ac nad oes cytundeb adran 106 drafft ar gael i'w ystyried⁵.

Atodiad:

Dyma ddisgrifiad o'r gwaith a nodir yn y cais am ganiatâd cynllunio i wneud gwaith clirio a pharatoi'r safle, dan y cyfeirnod 38C310F/EIA/ECON:

Gwaith paratoi a chlirio'r safle ar gyfer datblygu gorsaf bŵer Wylfa Newydd, yn cynnwys y gweithgareddau canlynol: clirio'r safle (gan gynnwys clirio a rheoli llystyfiant, tynnu ffensys, walïau, giatïau, ffinïau caeau, strwythurau presennol (gan gynnwys adeiladau), prysg, coed a nodweddion eraill sydd ar y tir); gwaith sefydlu'r safle (gan gynnwys gosod croesfan newydd ar draws ffordd fynediad gorsaf bŵer bresennol Magnox, ffurfioli pwyntïau croesi presennol i gerbydau ar draws Ffordd Cemlyn, ffurfioli llwybrau i gerbydau, gosod ffens adeiladu o amgylch perimedr y safle, sefydlu ardaloedd gosod, compowndïau storio deunyddïau, compowndïau adeiladu ac adeiladau lles/swyddfa dros dro cysylltiedig, meysydd parcio, cyswllt llwybr troed cysylltiedig rhwng prif gompownd y safle a maes parcio cyn Glwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa, lle i storio tanwydd, ffensys diogelwch, a nodweddion diogelwch a draenio); gwaith gwella'r tir (gan gynnwys sefydlu compownd prosesau adfer a ffensys cysylltiedig, storio deunyddïau wedi'u prosesu/wedi'u trin, sefydlu traciau mynediad cysylltiedig, draenio, cloddio a thrin priddoedd sy'n debygol o fod yn halogedig, a thrin a thynnu rhywogaethau estron goresgynnol); dargyfeirio a/neu gau Ffordd Cemlyn dros dro gyda mynediad at Dŷ Croes (Maes Parcïo'r Pysgotwyr) yn cael ei reoli; gwaith cysylltiedig arall a chynllun adfer i ddychwelyd y safle i gyflwr derbyniol os na fydd datblygiad gorsaf bŵer Wylfa Newydd yn mynd rhagddo yn Wylfa Newydd, Cemaes

⁵ Nodyn ar ôl y gwrandawriad: Darparwyd cytundeb adran 106 drafft gan Horizon i CSYM ar 26 Hydref 2018.

CYFLWYNIADAU

1. Mae'r cyflwyniadau hyn yn ymwneud â drafftio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") ac yn benodol y ddarpariaeth a wnaed ar gyfer lliniaru effeithiau. Maent yn codi o'r pryder sydd gan y Cyngor bod Pŵer Niwclear Horizon ("HNP") yn cynnig cwrs o safbwynt y broses o ddrafftio'r DCO ac unrhyw Gytundeb adran 106 cysylltiedig a fydd yn anghyfreithlon ac yn amhriodol.
2. Mae'r stori'n dechrau â'r Datganiad Amgylcheddol ("ES"). Mae ei ganlyniadau yn cael eu rhagfynegi ar gyflawni'r camau lliniaru angenrheidiol i wneud y cynnig yn dderbyniol. Os nad yw'r camau lliniaru a nodwyd yn cael eu sicrhau'n foddhaol, yna ni ddylid cymeradwyo'r cynnig ar ei ffurf bresennol.
3. Mae'r Map Trywydd lliniaru (APP-422) yn nodi sut y cyflawnir y camau lliniaru sy'n ofynnol, sef yn y golofn ar y dde dan y pennawd "*Mecanwaith Sicrhau*". Cyfeirio at Gytundebau 106 a wna nifer o'r cyfeiriadau cynnar, er enghraifft 009 Cyflogaeth a 0010 Cronfa Dai. Sylwer bod y gronfa yn cael ei darparu drwy'r Cytundeb a.106, sef cytundeb y mae'n rhaid ei wneud â'r Cyngor fel yr awdurdod cynllunio lleol.
4. Mae llawer iawn o'r eitemau yn y Map Trywydd lliniaru, er enghraifft 0020 ymlaen yn dibynnu ar God Ymarfer Adeiladu (CoCP) Wylfa Newydd fel y "*Mecanwaith Sicrhau*".
5. Dynodir y CoCP (APP-414) yn Erthygl 76 o'r DCO a bydd yn ddogfen ardystiedig. Mae'n rhan o'r cais. Ceir is-CoCPs yn ogystal â'r prif CoCP. Mae Adran 2 o'r CoCP yn datgan yr hyn y mae'n ei gwmpasu o ran lliniaru.
6. Ceir yn Adran 3 iaith od, gan ystyried yr hyn y mae'n ei ystyried, gweler er enghraifft baragraffau 3.2 yn gysylltiedig â fframwaith "ymgysylltu" Wylfa Newydd a'r manylion a ddangosir yn ffigur 3.1. Mae'r ffigur hwnnw'n nodi y cynnig o dan y CoCP y dylid bod "Bwrdd Rhaglen". Ers i'r ddogfen honno gael ei llunio, mae HNP bellach wedi diwygio'r cynnig fel bod y bwrdd rhaglen, yn eu cynigion diweddaraf, bellach yn "Banel Goruchwylio Safleoedd Mawr Wylfa Newydd". Cynnigir y dylai aelodaeth y Panel

Goruchwylio hwnnw gynnwys HNP, y Cyngor, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaethau Brys.

7. Rôl y panel (a ddisgrifir ym mharagraff 3.2.6 o'r CoCP) fydd ystyried y canlyniadau monitro a ddarperir gan Horizon a phennu unrhyw gamau lliniaru ychwanegol neu gamau gweithredu pellach, gan gynnwys rhyddhau cyllid yn sgil Cytundebau a.106.
8. WNMPOP fydd yn penderfynu pa waith monitro sydd angen ei wneud (gweler para 3.2.7 o'r CoCP) a bydd yn goruchwylio'r cyllid o'r Cytundeb a.106. Mae cynigion diweddaraf Horizon, yn wahanol i'r CoCP, o'r diwedd wedi datgan rhai strwythurau llywodraethu ar gyfer y Panel Goruchwylio, sef y bydd yn gweithredu fel pwyllgor gyda chadeirydd ac aelodau â phleidlais, gyda HNP ymysg y pleidleiswyr. Mae'n dilyn o anghenraid y bydd HNP yn pleidleisio o safbwynt gweithredu'r CoCP a dosbarthu arian a.106 mewn amgylchiadau lle bydd wedi gwneud y gwaith monitro a lle bydd yn darparu'r arian.
9. Yn ei bapur diweddaraf yn ymwneud â gweithredu'r CoCP mae HNP yn disgrifio ei fod yn "sylfaenol" i'w ddull gweithredu y bydd gan HNP arweinydd wedi'i neilltuo ar gyfer pob grŵp sy'n delio ag unrhyw gynigion ynglŷn â chamau lliniaru a'i waith ef/ hi fydd bwrw gwaith y grŵp ymlaen.
10. Effaith y dull gweithredu arfaethedig hwn yn y CoCP a'r papur ategol a ddarparwyd yn awr yw, i bob pwrpas, y bydd penderfyniadau ar weithredu camau lliniaru, monitro a gwario cyllid a.106 yn nwylo grŵp a ddisgrifir yn amrywiol fel naill ai fwrdd neu banel a fydd yn cynnwys HNP ac a fydd:
 - (1) yn penderfynu pa waith monitro a wneir;
 - (2) yn ystyried canlyniad y gwaith monitro ac yn penderfynu pa gamau lliniaru sy'n ofynnol;
 - (3) yn penderfynu a ddylid gwario unrhyw wariant lliniaru gofynnol, pryd ac ar beth.
11. Mae'r canlyniad yn golygu bod y camau lliniaru sy'n ofynnol yn ôl y Datganiad Amgylcheddol yn amodol ar benderfyniad grŵp y mae'r sawl sy'n talu amdanynt yn aelod ohono. Mae'n eu gwneud, i bob pwrpas, yn farnwr yn eu hachos eu hunain o ran y gofyn am gamau lliniaru ac unrhyw wariant sydd ei angen. Mae hynny'n golygu o anghenraid y bydd y broses o gyflwyno'r camau lliniaru sy'n ofynnol gan yr ES a defnyddio arian a.106 yn cael ei dwyn o ddwylo'r awdurdod sy'n gyfrifol am blismona'r broses o orfodi gofynion y DCO.

12. Mae'r CoCP yn rhan o'r cais. Mae'n rhan o'r DCO sy'n holl bwysig i gyfreithlondeb y cynigion yn benodol o safbwynt lliniaru'r effeithiau amgylcheddol fel y cynigir yn yr ES. Mae'r dull gweithredu, ym marn y Cyngor, yn afresymegol, yn anghyfreithlon ac yn amhriodol yn yr amgylchiadau o ran:
- (1) mae'n adweithiol nid yn rhagweithiol, mae'n ddull cwbl amhriodol, sef aros i effeithiau godi, eu cofnodi fel rhan o'r broses fonitro ac yna ceisio eu lliniaru;
 - (2) mae'n methu â sicrhau y caiff y camau lliniaru gofynnol eu cymryd ac mae'n dwyn i mewn elfen o ansicrwydd sy'n anghyson â thelerau'r ES;
 - (3) mae'n golygu bod y Cyngor yn ildio ei swyddogaethau statudol, yng nghyswllt gofynion y DCO a gweithredu'r Cytundeb a.106, i fwrdd neu banel nad yw'n awdurdod cynllunio lleol ac nad oes ganddo ddim statws i orfodi gofynion y DCO;
 - (4) mae'n gwneud HNP yn farnwr yn ei achos ei hun o safbwynt canlyniad y monitro a'r gofyn am gamau lliniaru.
13. Mae'r dull gweithredu yn y CoCP yn treiddio drwy rai agweddau pwysig iawn ar y cynnig. Maent yn sylfaenol i safbwynt y Cyngor o ran ei dderbynioldeb ac mae'n cynnwys y Strategaeth Llety'r Gweithlu ("WAS"), Strategaeth Rheoli Llety'r Gweithlu (WAMS). Roedd yn glir yn y CoCP (gweler para 3.2.18) y dylai'r WAS fod yn ddarostyngedig i'r broses.
14. Byddai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn arwain at ymwahaniad effeithiol rhwng y Cyngor fel yr awdurdod gorfodi ar gyfer gofynion y DCO (er enghraifft y Cyngor sy'n cyflwyno rhybudd o ddatblygiad anawdurdodedig dan a.169) a'r broses a gynigir yn awr ar gyfer cyflawni'r gofynion yn effeithiol. Byddai'r olaf yn nwylo bwrdd neu banel anstatudol heb ei ethol gyda'r datblygwr ymhlith aelodau'r panel. Mae hyn yn amlwg yn ymwahaniad amhriodol ac yn atgyfnerthu amhriodoldeb y mecanwaith CoCP a gynigir gan HNP.

MARTIN KINGSTON QC
6 Tachwedd 2018

No.5 Chambers
Llundain, Birmingham, Bryste

DIWEDD



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Wylfa Newydd DCO:

PINS Ref: ENO10007

Deadline 1 Submission:

**THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S CASE PUT ORALLY
AT ISSUE SPECIFIC HEARING (1) ON THE PROPOSED DRAFT
DEVELOPMENT CONSENT ORDER ON 24 OCTOBER 2018**

Energy Island Programme Management Office

13 November, 2018

WRITTEN SUBMISSION OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S CASE PUT ORALLY AT ISSUE SPECIFIC HEARING (1) ON THE PROPOSED DRAFT DEVELOPMENT CONSENT ORDER ON 24 OCTOBER 2018

1. INTRODUCTION

- 1.1 This document summarises the case put by the Isle of Anglesey County Council (IACC or the Council) at the Issue Specific Hearing (ISH 1) which took place at the Anglesey Showground, Anglesey, on 24 October 2018.
- 1.2 The IACC was represented by Mr Martin Kingston, QC; Mr Dylan Williams, the Council's Head of Regulation and Economic Development; Ms Angharad Crump, IACC Development Consent Order Lead Officer – Wylfa Newydd Nuclear New Build; Mr Rhys Jones, IACC Major Consents Impact Manager; and Ms Paula McGeady, solicitor, of Burges Salmon LLP. Also in attendance were Julian Boswall and Patrick Robinson of Burges Salmon LLP.

2. ARTICLE 5 AND ALIGNMENT WITH SITE PREPARATION AND CLEARANCE WORKS IN THE APPLICATION FOR PLANNING PERMISSION MADE TO THE COUNCIL AS LOCAL PLANNING AUTHORITY

- 2.1 The Council has concerns with the drafting of Article 5 in the draft Development Consent Order (dDCO) (APP-029). IACC does not consider it to be accurate to state that work 12 replicates the site preparation and clearance works for which planning permission⁶ is being sought from the Council or that the requirements of the DCO replicate the conditions of the planning permission.
- 2.2 Work 12 is more extensive and impactful than the planning permission works⁷. The explanatory memorandum (APP-031) at 4.10 and 4.16 is therefore not accurate in stating that these works are the same. For example, Work 12 includes realignment of a watercourse which is not included within the planning permission application site preparation and clearance works. At 4.16 there is a reference to Work 12 being slightly larger than the planning permission application area, this is not a fair reflection of the difference between the scope of these works under each application.
- 2.3 The draft planning permission conditions are more extensive than the DCO equivalent and cover a range of matters which are not currently set out in the dDCO requirements.
- 2.4 IACC also has concerns around the commencement of Work 12 as given the definition of commencement within the DCO this does not trigger many of the requirements of the DCO.
- 2.5 IACC are concerned with the drafting of Article 5(1)b. This article would appear to mean that any pre-existing breach of condition would be nullified by the commencement of Work 12 but that all approvals under the planning permission would be deemed approvals under the DCO. This appears to be very one sided as Article 5 also provides that any pre-existing consents granted under the planning permission do operate as consents under the DCO. In addition, given the greater scope of works in Work 12 than in the planning permission the Council does not consider that Horizon has shown that this would be appropriate as the documents and plans approved for the planning permission would not have been drafted to cover all of the activities within the more extensive Work 12.

3. SITE PREPARATION AND CLEARANCE WORKS

- 3.1 IACC noted that the Welsh Government holding direction of the issue of planning permission for the site preparation and clearance works was still in force; IACC was pleased that Welsh Government advised that a decision will be made on this imminently.⁸

⁶ The application for planning permission to carry out site preparation and clearance works was made to IACC as LPA under the Town and Country Planning Acts and has been given reference 38C310F/EIA/ECON.

⁷ Please see description of the works in the planning permission set out at the end of this note.

⁸ In response to Horizon's statement that they were unaware of this holding direction, IACC notes that this was discussed at the planning committee meeting of 05 September 2018 which considered the site preparation and clearance application and that a number of Horizon's staff were present and spoke at that meeting.

3.2 IACC noted that the planning permission s106 draft is advanced and that restoration is the outstanding key issue in it.

4. MARINE WORKS – JURISDICTION IN INTER-TIDAL AREA

4.1 The IACC noted that the Council remains in discussion and are aware that this needs careful consideration. The Council require some time to consider if it is appropriate for them to surrender the discharging authority role for the intertidal area. This is important because some of these structures will have impacts for landscape amenity and tourism and are therefore of acute interest to the IACC. The tidal range of this area is about 5 metres and the area concerned is therefore not insignificant.

4.2 IACC undertook that they will indicate what has and has not been agreed on this point and the reasons for that in its responses to first written questions.

5. SCHEDULE 1, OTHER ASSOCIATED DEVELOPMENT, PARAGRAPH O)

“o) such other works as may be necessary or expedient for the purposes of or in connection with the construction, operation and maintenance of the authorised development which do not give rise to any materially new or materially different environmental effects from those assessed as set out in the Environmental Statement.”

5.1 The IACC are concerned as to why this provision is so wide. IACC noted that it has not yet been made clear that this very wide provision is necessary⁹. IACC want to be clear what works are within the project envelope and that any consent is therefore properly controllable. IACC noted that Horizon’s explanation of this appears to be that the project is so big they cannot provide all of the detail of all of their works.

5.2 What may be a small or insignificant work as assessed by Horizon in the context of the overall project may however result in a large impact on residents which could be materially different in impact on them. If an impact was already significant, then even a modest increase could be very significant in and of itself in terms of impact experienced. The Council consider that it is therefore to be important to be as specific as possible in allowing such a catch all provision.

5.3 The Panel requested IACC submit their concerns in writing along with drafting options for this schedule 1 work description at Deadline 1. IACC were also asked to liaise with Welsh Government on this wording. The IACC has submitted a response on that point along with this summary.

6. SCHEDULE 2, LIST OF PLANS

6.1 IACC were asked if the plans listed in schedule 2 are all correct. IACC note that this is a question in the supplementary agenda and will form one of the first written questions and will respond to this in the response to those questions.

7 CODE OF CONSTRUCTION PRACTICE (COCP) (PROGRAMME BOARD)

7.1 The IACC’s Counsel has produced a note of the submissions made on this point which are attached as annex one of this summary.

7.2 The IACC noted that the COCP (APP-414) is a certified document under article 76 of the dDCO. The Council has substantial concerns with this document and the sub-CoCPs. The Council advised that it has written to Horizon at several occasions (in particular 16 May 2018, 17 September 2018 and 17 October 2018) setting out its concerns in detail on the COCP but has not received a substantive response to these letters, just the next iteration of the document.

7.3 Breach of a DCO is a criminal offence, however, so many of the measures supposed to be secured by the COCP have to be determined by the Programme Board that it is not possible for any person to judge whether or not it is being complied with. The COCP as drafted cannot be used to determine what the applicant would or would not have to deliver to be compliant and therefore a criminal standard

⁹ Post hearing note: IACC consider that a similar point applies to the approach to Other Associated Development generally.

of proof of non-compliance could not be established rendering the enforcement provisions of the Planning Act meaningless.

- 7.4 IACC noted that it would be very happy to separate the section 106 and the COCP however the particular language used in the COCP ties these together through the Programme Board process proposed which is unacceptable to IACC. IACC do not want an inappropriate level of control, however as the LPA are the only body who can enter a section 106 and enforce it as a deed, that cannot be subject to the COCP process as proposed.

8. CODE OF CONSTRUCTION PRACTICE (COCP) (LACK OF DETAIL)

- 8.1 The COCP provides at 2.4.1 “This CoCP and the sub-CoCPs set standards and measures that will manage and control the adverse environmental effects of construction”. The IACC submitted that it does not consider that the COCP contains an appropriate level of detail to fulfil this function. The COCP and sub-COCPs do not provide they detail on how mitigation will be delivered, or the standards to which it must be delivered.
- 8.2 For example, it is set out in the mitigation route map (APP-422) at lines 0017 and 0050 that the COCP will secure the use of shuttle buses to mitigate amongst other things traffic impacts. However this detail is not provided in the COCP. How many buses, when they will run, where they run from and to, being the things that actually implement this claimed mitigation, are missing.

9 COMPLUSORY ACQUISITION

- 9.1 The IACC note that they object to the prosed compulsory acquisition of a number of their interests including interests in land forming part of the public highway. It is considered to be inappropriate and incompatible with the Council as Highways Authority’s ability to properly manage the public highway for the applicant to acquire many of the interests they have included within the DCO. In particular the ability to temporarily occupy all of operational carriageway is unacceptable. The IACC further considers that there are more appropriate alternative mechanisms for the applicant to gain access to highway land for the carrying out of works, which mechanisms have not been discussed with the Council and that acquisition of rights in public highway land is unnecessary. The Council will expand on this point in its written representation.

10 SECTION 106

- 10.1 IACC noted that they have no detailed Heads of Terms from Horizon and there is no draft section 106 in circulation to be considered¹⁰.

Annex:

The description of the works set out in the application for planning permission to carry out site preparation and clearance works given reference 38C310F/EIA/ECON is:

Site preparation and clearance works for development of the Wylfa Newydd power station comprising the following activities: site clearance (including vegetation clearance and management, removal of fencing, walls, gates, field boundaries, existing structures (including buildings), scrub, trees, and other above ground features); site establishment works (including installation of a new crossing of the existing Magnox power station access road, formalisation of existing vehicular crossing points across Cemlyn Road, formalisation of vehicular routing, installation of construction fencing around the perimeter of the site, establishment of laydown areas, material storage compounds, construction compounds and associated temporary office/welfare buildings, car parks, associated footpath link from between main site compound to the former Wylfa Sports and Social Club car park, fuel store, security fencing, drainage and security features); ground improvement works (including establishment of a remediation processing compound and associated fencing, storage of treated/processed material, establishment of associated access tracks, drainage, excavation and treatment of soils likely to be contaminated, and treatment and removal of invasive non-native species); diversion and/or closure of Cemlyn Road with controlled access to Ty Croes (Fisherman’s Car Park); other associated works; and a scheme of restoration to return the site to an acceptable condition in the event the Wylfa Newydd power station development does not proceed at Wylfa Newydd, Cemaes

¹⁰ Post hearing note: A draft section 106 was provided by Horizon to the IACC on 26 October 2018.

SUBMISSIONS

1. These submissions relate to the drafting of the Development Consent Order (“DCO”) and in particular the provision made for the mitigation of impacts. They arise from a concern that the Council has that Horizon Nuclear Power (“HNP”) is proposing a course with regard to the drafting of the DCO and any related section 106 Agreement which will be unlawful and inappropriate.
2. The story starts with the Environmental Statement (“ES”). Its outcomes are predicated on the delivery of mitigation required to make the proposal acceptable. If the mitigation identified is not satisfactorily secured then the proposal ought not to be approved in its current form.
3. The mitigation Route Map (APP-422) identifies the means of delivery of required mitigation that is in the right hand column headed “*Securing Mechanism*”. A number of the early references are to section 106 Agreements for example 009 Employment and 0010 Housing Fund. It should be noted that the fund is being made available via the s.106 Agreement an agreement which must be made with the Council as local planning authority.
4. Very many of the items in the mitigation Route Map for example 0020 onwards rely on the Wylfa Newydd Code of Construction Practice (CoCP) as the “*Securing Mechanism*”.
5. The CoCP (APP-414) is identified in Article 76 of the DCO and is to be a certified document. It is a part of the application. There are sub-CoCPs in addition to the main CoCP. Section 2 of the CoCP sets out what it covers in terms of mitigation.
6. Section 3 has some odd language having regard to what it is considering, see for example paragraphs 3.2 related to the Wylfa Newydd “*engagement*” framework and the details shown at figure 3.1. That figure identifies that it is proposed under the CoCP that there should be a “*Programme Board*”. Since that document was produced HNP have now revised the proposal so that in their latest proposals the programme board has become the “*Wylfa Newydd Major Positions Oversight Panel*”. It is proposed

that membership of that Oversight Panel should consist of HNP, the Council, Welsh Government, Natural Resources Wales and the Emergency Services.

7. The role of the panel (described at paragraph 3.2.6 of the CoCP) will consider monitoring results provided by Horizon and determine any additional mitigation or further action including the release of funds to be secured by s.106 Agreements.
8. The WNMPOP will decide on what monitoring is to be undertaken (see para 3.2.7 of the CoCP) and have oversight of the funding from the s.106 Agreement. Horizon's latest proposals, unlike the CoCP, have at last set out some governance structures for the Oversight Panel which are that it will operate like a committee with a chairman and members having votes, HNP being among the voters. It necessarily follows that HNP will be voting with regard to the operation of the CoCP and the distribution of s.106 monies in circumstances where it will have provided the monitoring and will be providing the money.
9. In its most recent paper relating to the operation of the CoCP HNP describes it as "*fundamental*" to its approach that HNP will have a lead assigned to each group dealing with any mitigation proposals whose job it will be to drive the work of the group forward.
10. The effect of this proposed approach in the CoCP and the supporting paper which has now been provided is effectively that decisions on mitigation implementation, monitoring and expenditure of s.106 funds is to be in the hands of a group variously described as either a board or a panel which will include HNP and will:
 - (1) decide what monitoring is undertaken;
 - (2) consider the outcome of the monitoring and decide what mitigation is required;
 - (3) decide whether, when and on what any required mitigation expenditure is to be spent.
11. The result makes the delivery of mitigation required by the Environmental Statement subject to the decision of a group which includes the party who is paying for it. It makes them effectively a judge in their own cause with regard to the requirement for mitigation and any expenditure needed. That necessarily means that the delivery of the mitigation required by the ES and the utilisation of s.106 funds will be taken out of the control of the authority responsible for policing the enforcement of the requirements of the DCO.

12. The CoCP is a part of the application. It is a part of the DCO which is critical to the lawfulness of the proposals in particular with regard to the mitigation of environmental effects in the manner proposed by the ES. The approach is in the Council's view illogical, unlawful and inappropriate in the circumstances in that:
- (1) it is reactive not proactive, it has a fundamentally inappropriate approach of waiting for impacts to arise, be recorded in monitoring and then be subject to attempts at mitigation;
 - (2) it fails to secure the delivery of the required mitigation and makes it subject to a degree of uncertainty which is inconsistent with the terms of the ES;
 - (3) it involves the Council surrendering its statutory functions relative to the DCO requirements and the implementation of the s.106 Agreement to a board or panel which is not a local planning authority and has no standing with regard to the enforcement of DCO requirements;
 - (4) it makes HNP a judge in its own cause with regard to the outcome of monitoring and the requirement for mitigation.
13. The approach which is set out in the CoCP permeates some very important aspects of the proposal. They are fundamental from the Council's point of view to its acceptability and include the Workforce Accommodation Strategy ("WAS"), the Workforce Accommodation Management Strategy (WAMS). It is explicit in the CoCP (see para 3.2.18) that the WAS should be subject to the process.
14. The approach adopted would result in an effective separation between the Council as the enforcing authority for DCO requirements (for example the Council serves the notice of unauthorised development under s.169) and the process which is now proposed for the effective discharge of requirements. The latter would be in the hands of an unelected non-statutory board or panel with the developer among the panel members. That is plainly an inappropriate separation and reinforces the inappropriateness of the CoCP mechanism which is proposed by HNP.

MARTIN KINGSTON QC
6 November 2018

No.5 Chambers
London, Birmingham, Bristol

END